Rhif 15 **Yr Hen Wlad** Mai 1997

## At Gymry Patagonia

**Pleser mawr bob amser yw derbyn llythyrau o'r Wladfa, a hynny yn aml yn sgîl yr ymateb i'r gystadleuaeth. Clywsom gan Gweneira Davies de Quevedo ei bod wedi gwerthu copïau o Yr Hen Wlad yn y te a gafwyd i ddathlu Gŵyl Ddewi ac i groesawu'r criw o ymwelwyr o Gymru a ddaeth yna efo Cathrin Williams.**

**Yn ddiweddarach yn y mis 'roedd Luned Gonzales yn ei werthu mewn Arddangosfa Amaethyddol yn y Gaiman.**

**Diolch am eich diddordeb a'ch cefnogaeth.**

**Ond newydd arbennig iawn arall oedd hyn gan Alwen Green o Drevelin: "Cawsom y cwrdd cyntaf gyda Hazel Charles Evans yng nghapel Seion Esquel heddiw. Mi fydd hi yn brysur iawn y misoedd nesaf 'ma. Byddwn yn cael dosbarthiadau yma ar ddydd Mawrth a Iau ac yn Esquel y gweddill. 'Rydym dros gant i gyd!"**

**Diolchwn yn fawr hefyd i Gwilym Roberts am ei gyfraniadau y tro hwn.**

**Enw Melba Jones de Jones o Rawson ddaeth yn gyntaf o'r het. Diolch iddi am dynnu ein sylw at y ffaith mai Dewi Wyn Evans yw enw cywir un o'r tri athro sydd yn y Wladfa dan gynllun y Swyddfa Gymreig ac nid Jones fel y dywedasom ni.**

*Golygyddion: Guto a Marian Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU*

---

Bûm yn byw yn gynnil gynnil
Aeth un ddafad imi'n ddwyfil;
Ond wrth fyw yn afrad afrad,
Aeth y ddwyfil yn un ddafad.


Dywedodd henwr llwyd o'r gornel:
"Gan fy nhad fe glywais chwedel,
Gan ei dad y clywodd yntau
Ac ar eu hôl fe glywais innau."

Hen Benillion

# Llywodraeth Newydd

Yr oedd ysbryd o lawenydd a dathlu wedi i Lafur ennill yr etholiad cyffredinol ......

Dyma'r tro cyntaf er 1910 i Gymru fod heb aelod seneddol Toriaidd o gwbl ac mewn rhyw fath o gwlwm Celtaidd digwyddodd yr un peth yn yr Alban.





Mae Cymru yn awr yn wlad tair plaid gyda Llafur yn hawlio 34 o'r 40 o seddau; Plaid Cymru 4, a'r Democratiaid Rhyddfrydol 2.

Y Cymro Mai 7 1997

# Merched

Mae 101 o ferched yn Aelodau Seneddol Llafur yn y Llywodraeth newydd - sef heb fod ymhell o chwarter yr Aelodau Seneddol Llafur. Daw pedair ohonynt o Gymru - Betty Williams (Conwy); Ann Clwyd (Cwm Cynon); Jackie Lawrence (Preseli) a Julie Morgan (Gorllewin Caerdydd). Mae Rhodri Morgan, gŵr Julie Morgan hefyd yn Aelod Seneddol dros ran arall o Gaerdydd, a'i dad ef oedd Yr Athro T.J. Morgan, gynt o Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Abertawe.

# Ar y gweill



Beti James Llun: *Yr Hen Wlad*

Mae'r ymdrech i wau'r sgarff hiraf un wedi rhoi cyhoeddusrwydd ar hyd a lled y byd i Eisteddfod y Bala 1997.

Y bwriad oedd gwau sgarffiau bychain yna eu gwnïo yn ei gilydd i wneud un sgarff a fyddai dros ugain milltir o hyd ac yn ddigon i amgylchynu Llyn Tegid.

Pan gyhoeddwyd hyn mewn gwahanol bapurau ac ar y teledu dechreuodd addewidion am bentyrrau ohonynt gyrraedd y Bala ac nid yn unig o Gymru ond o fannau pell fel Seland Newydd.

Record y byd am wau sgarff hir yw 20 milltir 4 llath ond erbyn hyn mae trefnwyr yr Eisteddfod yn ffyddiog y bydd eu sgarff hwy yn 22 milltir.

Mrs Beti James, Cadeirydd y Pwyllgor Celf a Chrefft, yw'r arian byw sydd yn gofalu am yr ymgyrch ac mae'n ymfalchïo fod cymunedau yn dod at ei gilydd a miloedd o bobl yn cymryd rhan yn y cynllun.

Y gamp fawr fydd mesur y sgarff. Ni ellir pwyso'r gwahanol ddarnau gan fod trwch yr edafedd mor amrywiol, felly bydd yn rhaid mesur pob darn ar wahân.

Cyhoeddir yr union fesur ar ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod. Eir ati wedyn i wnïo'r sgarff yn blancedi ar gyfer Oxfam i'w rhannu i dlodion ac anffodusion ym Mhrydain ac mewn gwledydd eraill.

# Blas Periw

Cafodd disgyblion Ysgol y Bont, Llangefni, [Sir Fôn] brofiad bythgofiadwy yn ddiweddar yn croesawu'r grwp crefyddol *Orama* o Periw...



Llun: *Yr Herald*

'Roedd y grwp, sy'n hanu o bentref o'r enw Huancayo, yn gwisgo dillad traddodiadol ac yn canu caneuon Cristnogol traddodiadol.

Mwynhaodd y plant wrando ar y gerddoriaeth gan glapio a gwrando ar yr hanesion difyr oedd ganddynt i'w dweud am Periw.

Mae *Orama* ar daith o amgylch ysgolion gogledd Cymru fel rhan o gynllun gan y gymdeithas Gristnogol *The Ephphath Trust.*

O'r *Herald,* Mai 10 1997

# 75 oed

Mae Urdd Gobaith Cymru yn 75 oed eleni.

Uchafbwynt y dathlu oedd cyngerdd mawreddog i 1,200 o bobl ym Mhafiliwn Corwen nos Sadwrn Mai 18.

Seren y noson oedd Bryn Terfel a ddaeth yno yr holl ffordd o dŷ opera La Scala, Milan, lle mae'n ymarfer ar gyfer yr opera *Figaro* ar hyn o bryd. Rhoes Bryn Terfel deyrnged i'r Urdd a datgan ei ddyled enfawr i'r mudiad er pan fu'n cystadlu yn ei heisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Yr artistiaid eraill oedd Bethan Dudley (soprano), Daniel Evans (actor ac adroddwr); Nerys Richards (cello a phiano) a Dawnswyr Aelwyd Hafodwennog.

# Gweld sêr



Llun: *Yr Herald,* Mawrth 22 1997

Mae John Rowlands o Fodffordd [Sir Fôn] wedi ymddiddori mewn seryddiaeth er pan oedd yn blentyn ifanc iawn...

"Dechreuodd fy niddordeb flynyddoedd yn ôl .... wedi i 'nhad ddangos yr "aradr" i mi yn yr awyr," meddai.

Mae John yn uwch dechnegydd yng Ngholeg Prifysgol Bangor ac mae ganddo delisgop arbennig iawn sy'n ei alluogi i edrych yn fanwl ar y sêr.

"Mae'n bosibl gweld y seren gynffon - Comed Hale-Bopp, sef y gomed fwyaf disglair a welwyd y ganrif hon - gyda'ch llygaid noeth wrth edrych tua'r gorllewin ond mae'n edrych yn ardderchog drwy feinociwlars. Mae'n rhywbeth cyffrous iawn ac mae'n annhebygol y byddwn yn gallu gweld rhywbeth fel hyn eto yn ystod ein hoes ni. Mae'n seren gynffon fawr a llachar iawn ac yn brydferth, a buaswn yn cynghori pob teulu i fynd allan i'w gweld," ychwanegodd. "Ond mae'r gorau i ddod,"meddai, "ymhen pedair i chwech wythnos gall ddod mor agos i'r ddaear nes y bydd yn ddigon llachar, ac yn ddigon bywiog inni allu ei gweld yn ystod y dydd."

*Yr Herald,* Mawrth 22, 1997

# Cwmni Corlan

Mae Ysgol y Preseli yn Sir Benfro yn bwriadu datblygu canolfan breswyl i alluogi myfyrwyr 16-18 oed o Ewrop ac America i astudio am y *Baccalaureate* Cydwladol. I'r perwyl hwnnw maent wedi sefydlu Cwmni Cymunedol Cydweithredol o'r enw *Corlan.*

Mae 485 o blant yn yr Ysgol sydd yng nghanol cymdeithas sy'n siarad Cymraeg ac yn gwasanaethu ffermydd teuluol, pentrefi bychain a chymunedau sy'n ymfalchio yn eu treftadaeth Gymreig.

Yn ôl y Prifathro, Martin Lloyd: "Ar y cychwyn gobeithiwn ddenu 20 o fyfyrwyr i astudio'r Baccalaureate o Brydain, Iwerddon, Ffrainc a gogledd America ond ein bwriad yw denu aelodau o'r gymuned Sbaeneg/Gymraeg ym Mhatagonia i astudio yma." Mae'n argyhoeddedig y bydd plant yr ysgol yn elwa o'r datblygiad hwn. Bydd y myfyrwyr tramor hefyd yn dysgu am iaith a thraddodiadau Cymru ac yn elwa o'r addysg a fydd o'r radd flaenaf.

Yn ystod gwyliau'r haf bydd y Ganolfan yn darparu cyrsiau ar gyfer oedolion yn nhreftadaeth Cymru ac/neu yn yr iaith Gymraeg. Gobeithir y bydd cymdeithasau Cymraeg tramor yn cael eu denu gan y profiad unigryw hwn.

Am fanylion pellach gellir ysgrifennu at Martin Lloyd, Prifathro, Ysgol y Preseli, Crymych, Sir Benfro. Fax: 10239 831416. ☎: 01239 831 406. Cyfeiriad e-bost yw: mlloyd.ysgolypreseli@campus.bt.com.
*[Cafwyd cais am i ni gyhoeddi'r uchod.]*

# Dathlu

Shân Emlyn, Ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin, oedd gwraig wadd cinio Gŵyl Ddewi Cangen Bangor a'r Cylch o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ym mwyty'r Pili Palas, Ynys Môn. Llywydd y noson oedd y Parchedig Arthur Meirion Roberts a chynigiwyd y diolchiadau gan T. Arfon Williams. Daeth tua deugain o aelodau ynghyd a chafwyd sgwrs ddifyr gan Shân ar "Ganu'r Wladfa. Ar ddiwedd y noson gwerthwyd 50 o gopïau o gyfrol a baratowyd ar y cyd gan May Williams de Hughes, Trelew, a Cathrin Williams, Porthaethwy, sef *Er Serchog Gof* sy'n gasgliad o feddargraffiadau ym mynwentydd y Wladfa. Fe'i cyhoeddwyd gan Wasg Gee a'i phris yn £5.

Gwilym Roberts, Caerdydd.



# Kyffin Williams

Yn ystod mis Mawrth cafwyd arddangosfa o dros gant o ddarluniau o waith Kyffin Williams yn Oriel Albany yng Nghaerdydd.

Cymaint oedd y diddordeb fel y gwelwyd cwt o bobl y tu allan i'r Oriel yn disgwyl am fynediad. Gwerthwyd bron pob darlun yn yr arddangosfa mewn byr amser.

Bu Kyffin Williams ar ymweliad â Phatagonia yn 1968 a pheintiodd nifer o ddarluniau yn portreadu bywyd y Wladfa.

Cyflwynodd ddarlun i Gymdeithas Cymry Ariannin yn 1995 a threfnwyd raffl er mwyn codi arian at gronfa'r Gymdeithas. Codwyd swm sylweddol o arian o ganlyniad ac enillwyd y darlun gan wraig o ochr y Bala. Gobeithio ei bod yn sylweddoli ei lwc gan y bydd y darlun yn werth llawer o arian maes o law!

Yn ei lyfr *A Wider Sky* mae pennod am ei arhosiad ym Mhatagonia a dywed ei fod yn ystyried ei ymweliad byr fel y cyfnod mwyaf cyffrous a chofiadwy yn ei fywyd.

Gwilym Roberts, Caerdydd

# Tai...

# ... yn symud


Mae cynllun diddorol ar y gweill i ddymchwel rhes o dai chwarelwyr traddodiadol yn Nhanygrisiau [Ffestiniog] a'u hailgodi yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, gryn 30 milltir i ffwrdd.

Fe wneir hyn yn ofalus, garreg wrth garreg, fel y gwnaed yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan gyda hen adeiladau o ddiddordeb hanesyddol....

Y syniad ydi ailgodi'r rhes o bedwar tŷ fel atyniad addysgol a thwristiaeth - fel rhyw gofadail o'r oes pan oedd y diwydiant chwareli mewn bri ac i roi syniad am amgylchiadau cymdeithasol teuluoedd chwarelwyr y cyfnod.

*Y Cymro*, Ebrill 12 1997

# Troedigaeth



Chris Jones    Llun: *Yr Herald*

Fe fydd cyn-chwaraewr rygbi, oedd yn cael ei gyfrif yn dipyn o "seicopath" yn rhannu ei brofiad gyda phobl ifanc yn Llŷn a Môn yr wythnos nesaf...

'Roedd Chris Jones...yn "fwli direolaeth".... arferai gario bwyell yn ei fag. Erbyn hyn mae'r Testament Newydd yn ei boced.

"Roeddwn i'n berson ofnadwy," meddai. "Roedd pobl yn fy ngalw yn seicopath ac yn ddyn gwyllt. Yn yr ysgol 'roeddwn yn cael fy hyfforddi ar gyfer bod y chwaraewr gorau ym myd rygbi yng Nghymru i rai o fy oed. Unwaith y gadewais roeddwn â'm bryd ar fod y chwaraewr mwyaf gwallgof a'r cnociwr pennau gorau."

Dros y blynyddoedd mae Chris wedi cael problemau, yn cynnwys cael ei ddiarddel ddwywaith gan Undeb Rygbi Cymru, cael ei garcharu am gwffio ar y cae rygbi, a dechreuodd yfed yn drwm a chymryd cyffuriau.

Erbyn hyn mae'n berson gwahanol iawn ac yn gweithio fel hyfforddwr datblygu rygbi i Glwb Treorci.

Yn ystod ei ymweliadau bydd yn cynorthwyo Clwb Rygbi Llangefni ac Ysgol Gyfun Llangefni yn ogystal â darlithio ar y testun "Cyflwyno Fy Nghreawdwr".

O'r *Herald*, Mai 10 1997

## Llythyr o Wrecsam

Annwyl Olygyddion
Dyma lun o Gôr Esquel fu'n cystadlu yn Eisteddfod Rhuthun (?).




Aelodau o Gôr Esquel, y Prif Gwnstabl, ei ddirprwy ac Emlyn Edwards

Clywsai fy niweddar frawd, John Edwards, Llandudno, oedd â diddordeb mawr yn y Wladfa, fod y Côr, oherwydd chwyddiant ariannol, yn ei chael yn anodd i dalu ei ffordd. Trefnodd gyngerdd gyda Pharti Menlli yng Nghapel yr Annibynwyr yn Llandudno a gofynnodd i minnau a allwn ei helpu.

Yr oedd Côr bychan gan yr heddlu yn y Pencadlys yn Hen Golwyn ar y pryd a minnau yn aelod ohono. Cytunwyd i gadw cyngerdd yn y *Gymnasium* yn y pencadlys a'r ddau gôr yn diddori a bu'n noson i'w chofio. Canwyd sawl eitem yn Gymraeg ganddynt ac ambell i gân hudol o Dde America.

Cyflwynodd y Prif Gwnstabl, Syr Philip Myers, holl elw'r noson iddynt ynghyd â bathodyn a tharian Heddlu Gogledd Cymru. Cawsom hefyd gyfle i roi pryd o fwyd iddynt yn y cantîn cyn y cyngerdd a chroesawyd hwy i aros yng nghartrefi rhai ohonom.

Cofion cynhesaf
Emlyn Edwards

---

Cas dyn a watwaro ddysg a gwybodau daionus.
Dihareb

# Gwenallt



Ar y pymthegfed o fis Mawrth dadorchuddiwyd plac ar gyn gartref y Prifardd David James Jones (Gwenallt), 30 mlynedd ar ôl ei farw.

Bu'n ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a chofir amdano fel Bardd, Ysgolhaig, Sosialydd, Heddychwr a Chenedlaetholwr.

Carcharwyd ef am wrthod ymuno â'r fyddin adeg y Rhyfel 1914-18 a'i brofiadau bryd hynny wedi eu corlannu yn ei nofel "Plasau'r Brenin".

Cafodd y gadair am ei awdl yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Abertawe 1926.

*Ysgubau'r Awen* oedd teitl ei gyfrol gyntaf (o bump) o'i farddoniaeth a'r gerdd "Cymru" yn cychwyn gyda'r geiriau:

Gorwedd llwch holl saint yr oesau
A'r merthyron dy dy gôl,

Hefyd ei soned "Cymru" sydd yn ein hatgoffa o "Hon" T.H. Parry-Williams - ond â'r eirfa'n fwy garw a llym ac yn nodweddiadol o waith Gwenallt. Dadorchuddiwyd y plac gan ei orwyrion.




### Cymru

Paham y rhoddaist inni'r tristwch hwn,
A'r boen fel pwysau plwm ar gnawd a gwaed?
Dy iaith ar ein hysgwyddau megis pwn,
A'th draddodiadau'n hual am ein traed?
Mae'r cancr yn crino dy holl liw a'th lun,
A'th enaid yn gornwydydd ac yn grach,
Nid wyt ond hunllef yn dy wlad dy hun,
A'th einioes yn y tir ond breuddwyd gwrach.
Er hyn, ni allwn d'adael yn y baw
Yn sbort a chrechwen i'r genhedlaeth hon,
Dy ryddid gynt sydd gleddyf yn ein llaw,
A'th urddas sydd yn astalch ar ein bron,
A chydiwn yn ein gwayw a gyrru'r meirch
Rhag cywilyddio'r tadau yn eu heirch.

Gwenallt

# Cystadleuaeth

Y gamp y tro hwn yw llunio'r nifer mwyaf o eiriau efo'r llythrennau sydd yn y sgwariau hyn (y llythrennau hyn yn unig):

| | | |
|---|---|---|
| C | Y | L |
| W | A | CH |
| N | R | G |

Rhaid i bob gair fod yn 4 llythyren neu ragor. (Cofiwch mai un llythyren yw "CH" yn Gymraeg.)
Rhaid cael y llythyren "A" ym mhob gair.
(Felly ni dderbynnir geiriau fel: *cylch* a *gŵyl*).
Dyma un gair posibl: *calch.*

Anfonwch eich rhestr o eiriau atom i'r cyfeiriad a geir ar y dudalen flaen cyn Gorffennaf 31 1997 a'r enw cyntaf ddaw o'r het efo'r nifer mwyaf o eiriau gaiff gyhoeddi ei enw y tro nesaf.

# Melyn sy'n Aur

Mae gwerth £300 o aur Meirionnydd wedi ei impio i'r goron a gynigir yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Bala, eleni.

Mae i'w weld yn ddwy linell felen yn logo'r Eisteddfod sydd ar flaen y goron.

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Clywsom**

- a llongyfarchwn Mrs Gweneira Davies de Quevedo sydd wedi derbyn medal aur am ei gwasanaeth i'w thalaith.
- fod Dewi Mefin ac Eileen Jones yng Nghymru dan nawdd y Cyngor Prydeinig i astudio'r gweithgareddau'r Eisteddfod.
- fod Dr Robert Owen Jones yn dod i'r Wladfa i arolygu Cynllun y Swyddfa Gymreig ym mis Mehefin.
- fod Dafydd Lloyd o Lanarth, Ceredigion, sydd yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Lerpwl, yn trefnu i ymweld â'r Wladfa ddechrau Gorffennaf.
- fod Côr Gaiman, dan arweiniad Marli Pugh, yn dod i Gymru ym mis Gorffennaf, hefyd May Williams de Hughes.
- fod Andres Roberts o Drelew yn dod â chriw o dwristiaid i Gymru ym mis Gorffennaf.
- fod Gwyn a Monica Jones a Geraldine a Macsen Tywi yn dod i fyw i Gymru yn y dyfodol.

# Ofergoelion

A ydych chwi yn ofergoelus? Ydi gweld cath ddu yn croesi'r ffordd yn golygu newyddion da neu lwc dda i chwi? Ydi gweld lleuad newydd trwy ffenestr yn beth anffodus?

Dichon y gwyddoch am ofergoelion tebyg. Os felly, mae cyfle i chwi eu casglu a'u cofnodi ac efallai i gael tâl am hynny os anfonwch hwy i'r gystadleuaeth ar gyfer y Gwladfawyr sydd yn Nhestunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1998.

Mae'n ddiamau fod yna lawer o ofergoelion cysylltiedig â'r môr megis diwrnod anffodus i gychwyn am fordaith - a beth am yr ofergoelion a geid ymhlith brodorion gwreiddiol y Wladfa?

Dyma eich cyfle i gystadlu a hefyd i gofnodi ar bapur fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl fanylion am fywyd y dyddiau gynt.

Mae gennych un mis ar ddeg i feddwl am y testun - hyd at Ebrill 1 1998.